*Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cywiro gwallau yn O.S. 2022/907 (Cy. 198) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1077 (Cy. 228)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Hydref 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *25 Hydref 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Tachwedd 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 255 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Tachwedd 2022.

### Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (diwygiadau o ganlyniad i gychwyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016)—

(a) yn lle'r pennawd i baragraff 3 (Tenantiaethau Sicr (Hysbysiad i'r Tenant) 1981(**3**)), yn y testun Cymraeg, rhodder "Rheoliadau Tenantiaethau Sicr (Hysbysiad i'r Tenant) 1981";

(b) ym mharagraff 19 (Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) 1997(**4**)) yn is-baragraffau (b)(ii) a (iii), hepgorer "monthly";

(**1**) 2016 dccc 1. Diwygiwyd adran 255(2) gan adran 14 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3) a pharagraffau 1 ac 8 o Atodlen 5 iddi.
(**2**) O.S. 2022/907 (Cy. 198).
(**3**) O.S. 1981/591.
(**4**) O.S. 1997/3008.

(c) ym mharagraff 20 (Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (Cynlluniau Buddsoddi Torfol) 2001(**5**)), yn is-baragraff (a), yn lle “paragraff”, rhodder “is-baragraff”;

(d) ym mharagraff 21 (Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003(**6**)), yn y testun Saesneg, yn lle is-baragraff (a), rhodder—

“(a) in regulation 2 (interpretation)—

(i) after the definition of “the Common Travel Area”, omit “and”;

(ii) for the full stop at the end of the definition of “the immigration rules”, substitute “; and”;

(iii) after the definition of “the immigration rules”, insert—

““secure contract” (“*contract diogel*”) has the same meaning as in the Renting Homes (Wales) Act 2016 (see section 8 of that Act).””

(e) ym mharagraff 30 (Rheolau Ansolfedd (Cymru a Lloegr) 2016(**7**)), ym mharagraff (b), yn y troednodyn i Ddeddf Tai 1985(**8**), yn lle “o Ddeddf Tai 1989”, rhodder “o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989”.

(3) Yn Atodlen 2 (dirymiadau), yn y pennawd “Tabl 1”, hepgorer “1”.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

24 Hydref 2022

(**5**) O.S. 2001/1062.
(**6**) O.S. 2003/239 (Cy. 36).
(**7**) O.S. 2016/1024.
(**8**) 1985 p. 68.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) ("Deddf 2016") yn darparu y bydd y rhan fwyaf o denantiaethau a thrwyddedau ar gyfer anheddau y mae unigolion yn eu meddiannu fel cartrefi yng Nghymru yn gontractau meddiannaeth. Mae Deddf 2016 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch telerau contractau meddiannaeth.

Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022 (O.S. 2022/907 (Cy. 198)) ("Rheoliadau 2022") yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r darpariaethau newydd yn Neddf 2016. Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro mân wallau technegol a theipograffyddol yn Rheoliadau 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.